

Gwaith Cartref

13/3/17

Annwyl Rhiant/Gwarcheidwad,

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae gwaith cartref yn rhan bwysig o waith ysgol ac yn helpu disgyblion i weithio'n annibynnol, yn atgyfnerthu'r gwaith a wnaethpwyd yn yr ysgol ac yn helpu disgyblion i feithrin hunan-ddisgyblaeth ac ethos gwaith da. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i'r mwyafrif o'n disgyblion a'n rhieni, sydd yn sicrhau bod gwaith cartref yn cael ei gwblhau yn gyson ac i'r safon uchaf posib. Yn anffodus, nid yw pob disgybl yn cwblhau pob darn o waith cartref. Mae ymchwil yn dangos nad yw disgyblion sydd yn peidio a chwblhau gwaith cartref i atgyfnerthu eu dysgu yn perfformio cystal a'r disgyblion hynny sydd yn cwblhau gwaith cartref yn gyson, felly mae'n allweddol ein bod ni'n cydweithio i ddatblygu arferion da.

Dros yr wythnosau a misoedd nesaf byddwn yn atgyfnerthu ein polisi gwaith cartref gyda'r disgyblion, a gofynnwn am eich cydweithrediad gyda'r materion yma. Mi fydd cofnod yn cael ei fewnbynnu i SIMS (ein system cofnodi digwyddiadau) ac yna neges destun yn cael ei danfon i'r rhieni. Pob tro y bydd hyn yn digwydd, mi fydd canlyniad adrannol yn dilyn, mae hyn yn rhan o'n polisi ysgol. Mi fydd y canlyniadau yma yn ddibynnol ar y nifer o achosion o ddiffyg gwaith cartref a difrifoldeb y broblem - gall canlyniad fod yn un neu'n fwy o'r canlynol : cosb cinio, cosb ar ôl ysgol, cerdyn monitro gwaith cartref, cyfeiriad i'r Pennaeth Adran neu Arweinydd Dysgu a chyfarfod/galwad ffôn i'r rhieni i geisio datrys y broblem.

Pob amser cinio, mae 'clwb gwaith cartref' ar gael yn ystafell TGCh1, mae hwn yn gyfle i ddisgyblion ddefnyddio adnoddau TGCh neu dderbyn cymorth oddi wrth aelod o staff. Pwrpas y clwb yw cefnogi disgyblion ac nid eu cosbi. Yn anffodus mae rhai disgyblion yn cymryd mantais o'r clwb ac yn cwblhau gwaith cartref yn ystod y sesiynau yma yn unig. Yn wir, mae'n well gan rhai dderbyn 'cosb cinio' yn hytrach na gweithio adref. A wnewch chi annog eich plentyn i ddatblygu arferion gwaith cartref da? Gall hyn gynnwys:

- Gwneud gwaith cartref am amser penodol bob nos
- Dim dyfeisiau electronig/mynediad i'r wê/Teledu/Gwefannau cymdeithasol cyn iddynt gwblhau eu gwaith cartref.
- Sicrhau bod y disgybl yn gweithio'n rheolaidd, am amser penodol yn y tŷ - yn aml mae disgyblion yn dweud bod dim gwaith cartref ganddynt, ac weithiau mae hyn yn wir, ond yn aml, esgus yw hyn! Os nad oes gwaith cartref ganddynt, beth am iddynt ddarllen neu adolygu am amser penodol, mae gwneud ychydig yn gyson yn aml yn well na gadael llawer tan y funud olaf.
- Osgoi gweithio'n hwyr yn y nos.
- Annog disgyblion i gyfieithu eu gwaith cartref os nad yw'r rhiant yn deall Cymraeg, mae hyn yn datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn ogystal â'u helpu i ddeall y gwaith yn well. Mae geiriaduron, geiriaduron ar-lein ac apiau rhad fel 'ApGeiriaduron' yn dda ar gyfer hyn.

Diolch am eich cydweithrediad gyda'r uchod, os hoffech drafod hwn ymhellach cysylltwch gyda minnau neu Arweinydd dysgu eich plentyn.

Mark Bridgens
(Pennaeth Cynorthwyol)

